

yma. Yr un a fyddai'n dylanwadu'n fwyaf parhaol ar ddatblygiad Iddewiaeth oedd mudiad y Phariseaid, a Hillel a Shammai oedd dau o'i athrawon cynharaf ac enwocaf. Dechreuodd pobl alw'r athrawon yma yn *rabbi* ('fy meistr', yn yr ystyr 'fy athro'), a dyna darddiad y term 'Iddewiaeth rabinaidd'. Roedd Hillel a Shammai yn aml yn anghytuno, a chafodd gwahanol farn eu dwy ysgol eu cofnodi'n helaeth. Yn y gyfrol yn y Mishnah (ysgrifau rabinaidd) yn ymwneud â Bendithion (yn yr Hebraeg, *Berachot*), cawn drafodaeth am drefn y bendithion sydd i'w hadrodd dros bryd bwyd. Yn y gyfrol sy'n ymwneud â dogfennau ysgaru (yn yr Hebraeg, *Gittin*), cawn wahanol ddehongliadau o Deuteronomium 24: 1 sy'n dweud, yng ngeiriau'r Beibl Cymraeg Newydd:

Os bydd dyn wedi cynmyrd guraig a'i phriodi, a hi hau wedyn heb fod yn ei fodloni am iddo gael rhywbeth anwedus ynddi, yna y mae i ysgrifennu llythyr ysgar iddi...

Mae'r rheswm dros ysgaru yn dibynnu ar ystyr 'rhywbeth anwedus ynddi'. Gan ychwanegu gair neu ddau i wneud yr ystyr yn fwy clir, gallwn gyfieithu'r darn yn y Mishnah fel hyn:

Mae ysgol Shammai yn dweud, Ni chaff dyn ysgaru ei wraig onid yw wedi canfod rhywbeth anwedus ynddi ynddi, felly y dywedir, 'Am iddo gael rhywbeth anwedus ynddi'. Ond mae Ysgol Hillel yn dweud, Hyd yn oed pe bai'n coginio'n wael, felly y dywedir 'Am iddo gael rhywbeth anwedus ynddi'. Dywed Rabbi Akiva, 'Hyd yn oed os yw wedi dod o byd i rywun harddach na hi, felly y dywedir'

Roedd dilynwy'r Shammai yn credu mai dim ond ar sail perthynas rywiol y tu allan i briodas y gellid caniatáu ysgariad, rhai Hillel yn credu y gellid ysgaru am resymau llawer llai difrifol, a dilynwy'r Akiva yn credu y gellid am unrhyw reswm o gwbl. Dydy'r Mishnah ddim yn cynnig barn derfynol, ond mae'n amlwg fod rabiniaid diweddarach wedi cynghori yn erbyn ysgaru, fel y gwelwn yn y Talmud (trafodaeth o'r Mishnah), er enghraifft: 'Os bydd dyn yn ysgaru ei wraig gyntaf, bydd hyd yn oed yr allor yn wylo dagrau' (Gittin 90b).

Yn dilyn Hillel a Yohanan, Akiva yw trydydd aelod y triawd o rabiniaid a ddatblygodd draddodiadau cyfreithiol Iddewiaeth i gynhyrchu'r Mishnah, ac iddo ef y priodolir y casgliad o rai o'r dywediadau sydd ynddo. Bu farw'n ferthyr wedi Gwrthryfel Bar Cochba yn erbyn Rhufain tua 135 OG.

Pirke Avot ('Dywediadau'r Tadau' neu weithiau 'Moeseg y Tadau'), yn aml yn cael ei argraffu mewn llyfrau gweddol oherwydd fod ei ddyysgeidiaeth foisol mor bwysig ac mor glir. Mae'n dechrau gyda'r geiriau:

Derbyniodd Moses y Torah ar Sinai, a'i drosglwyddo i Josua; rhoddodd Josua ef i'r bynafgwy'r, yr bynafgwy'r i'r proffwydi, a throsglwyddodd y proffwydi ef i Wyr y Cynulliad Mawr. Dywedodd y rhain dri pheth: Byddwch yn buyllog wrth farw; magwch llawer o ddisgyblion; a gwnewch glawdd o gumpas y Torah. Seimon y Cyfiau oedd un o'r olaf o aelodau'r Cynulliad Mawr. Arferai dweud, Ar dri pheth y seiliwyd y byd: ar y Torah, ar wasanaeth Duwfol, ac ar arfer elusengarwch. Derbyniodd Antigonos o Socho'r traddodiad o law Seimon y Cyfiau...

Adnodau lawer yn ddiweddarach, darllenwn:

Derbyniodd Rabban Yochanan, fab Zakkai, y traddodiad gan Hillel a Shammai. Arferai dweud, Os wyt wedi dysgu llawer o'r Torah, paid â meddwl dy fod yn rhinweddol, oherwydd i'r diben hwn y cefais dy greu. Roedd gan Rabban Yochanan, fab Zakkai, bum disgybl, sef Rabbi Elieser, fab Hyrcanus, Rabbi Josua, fab Chananya, Rabbi José yr Offeiriad, Rabbi Simeon, fab Nathaniel, a Rabbi Elasar, fab Arach. (2: 9-10)

Mae'r rhestr yn cynnwys enwau allweddol yn natblygiad Iddewiaeth Rabinaidd, neu 'Iddewiaeth y Torah deublyg', yng ngeiriau'r ysgolhaig, Jacob Neusner. Tybir mai'r cymieriad canolog, Yochanan ben Zakkai, oedd ei sylfaenydd. Wedi i'r Rhufeiniaid drechu Jerwsalem, sefydlodd ganolfan yn Yavneh (Jamnia oedd yr enw Groegaidd) yng ngogledd Palesteina ac yno, tua 100 OG, y penderfynwyd pa lyfrau fyddai'n cael eu derbyn fel ysgrythur sanctaidd. Does neb yn gwybod llawer amdano yn bersonol, ond mae'n bwysig oherwydd ei bwylais ar astudio'r Torah.

Amrywiaeth Iddewiaeth yr Ail Deml

Sefydlodd y ddau rabbi gafodd eu henwi o'i flaen ef, Hillel a Shammai, ysgolion ar gyfer astudio'r Torah. Roedd Iddewiaeth yn y ganrif gyntaf OG ymhell o fod yn unfurf, gyda nifer o sectau neu fudiadau gwahanol yn ymfurfio yn y cyfnod hynod greadigol